Mae Michelle Willis o Gonwy yn rhedeg yr asiantaeth gofal cartref Carelink Homecare Services Ltd.

Roedd yn awyddus i ddatblygu ei sgiliau rheoli, felly cofrestrodd ar y Rhaglen Esgyniad gan ymroi'n llwyr i'r rhaglen, yn ogystal â defnyddio'r hyn a ddysgodd ar y rhaglen ar ôl dychwelyd i'r gweithle a hyd yn oed anfon aelodau staff eraill ar y cwrs.



Cheyenne Staley

“Dychwelais i ddysgu pan oeddwn i'n 50 oed, sy'n dangos nad yw hi byth yn rhy hwyr i wella'ch rhagolygon gyrfa a'ch boddhad yn eich swydd.”

Roedd Cheyanne Staley o Flaenau yn Gynrychiolydd lechyd a Diogelwch i gwmni gweithgynhyrchu pan benderfynodd ddychwelyd i ddysgu trwy'r Rhaglen Esgyniad.

Llwyddodd y Rhaglen Esgyniad i helpu Cheyanne i ddatblygu ei sgiliau ac roedd modd iddi wneud ei gwaith yn fwy effeithiol ac aeth ymlaen i ennill Gwobr Dysgwr Gweithle y Flwyddyn.

Mae Cenedl Hyblyg, sef prosiect gan Chwarae Teg a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, yn gwneud gwahaniaeth ar draws Ardal Gydyfeirio Cymru trwy ei raglenni, a ddatblygwyd yn arbennig ar gyfer menywod a chyflogwyr.

Rhaglen Esgyniad ar gyfer Busnes

Mae'r Rhaglen Esgyniad yn gyfle i fusnesau bach a chanolig ddatblygu a gweithredu strategaethau amrywiaeth arferion gorau, mewn ffordd sy'n gallu gwneud y busnes yn fwy llwyddiannus, a hynny heb wario fawr o arian os o gwbl.

Yma mae busnesau sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Esgyniad yn egluro'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud:



Pia

www.pia.co.uk

Sharon Williams, Cyfarwyddwr Rheoli

“Erbyn hyn mae 20% o'n staff yn gweithio'n hyblyg, gan gynnwys oriau rhan-amser neu wythnosau cywasgedig.”

Mae'r cwmni argraffu Pia, o Gwmbrân, yn cyfieithu dogfennau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg ar gyfer amrywiaeth o gleientiaid.

Trwy'r Rhaglen Esgyniad, datblygodd Pia bolisi gweithio o bell a oedd yn rhoi mwy o gyfleoedd i aelodau staff weithio o bell, gan arwain at weithlu a oedd yn fwy brwdfrydig ac effeithlon.



Newydd Housing Association
www.newydd.co.uk

Olwen Thomas, Rheolwr Adnoddau Dynol

“Treuliodd Cymdeithas Tai Newydd flwyddyn yn gweithio gyda'r Rhaglen Cenedl Hyblyg ac yn ystod y cyfnod hwnnw cawsom lawer iawn o gymorth ar arferion da yn ogystal â chymorth ymarferol gyda'r gwaith o adolygu ein polisiau a'n gweithdrefnau.”

Gan eu bod yn awyddus i gael cymorth i adolygu eu polisiau a'u gweithdrefnau Adnoddau Dynol presennol, aeth Newydd ati i gymryd rhan yn y Rhaglen Cenedl Hyblyg.

Erbyn hyn, mae ganddynt gyfres gyflawn o bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cyfredol, gan gynnwys dulliau o fonitro cynnydd a datblygiad yn effeithiol.

Ewch i

www.agilenation.co.uk

i ddarllen mwy am y menywod a'r busnesau sydd eisoes wedi elwa o'r prosiect Cenedl Hyblyg.



Anheddau Cyf

www.anheddau.co.uk

Janetta Toleman Jones, Prif Swyddog Gweithredol
“Mae'r sefydliad cyfan wedi mabwysiadu pob agwedd ar y prosiect Cenedl Hyblyg.”

Daeth Anheddau Cyf, darparwr gofal cymdeithasol yn y Gogledd, ar draws Rhaglen Esgyniad Cenedl Hyblyg trwy ryngweithio proffesiynol.

Bu'r rhaglen Esgyniad yn gymorth i Anheddau sefydlu grŵp llywio amrywiaeth. Trwy gydweithio ar y prosiect hwn, trefnodd Anheddau fod 20 o fenywod yn dilyn rhaglen Esgyniad.

Yn ogystal â sefydlu grŵp llywio amrywiaeth, cafodd Anheddau gymorth gan y Rhaglen Esgyniad i ddewis 20 o fenywod i ddilyn y Rhaglen.

Mewn cyfweiliad arbennig gyda Chwarae Teg, mae Ann Beynon, Cyfarwyddwr Cymru BT, yn rhannu gyda ni ei safbwyntiau arbenigol ar rai o'r materion allweddol sy'n ymwneud â datblygiad menywod yn y gweithle. Yn ystod ei gwaith gyda BT, mae Ann wedi gweld yn bersonol fanteision arferion sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ac yma mae'n esbonio sut yr ysbrydolodd hyn hi i dderbyn swydd Comisiynydd Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.



Holi ac ateb

gydag Ann Beynon, Cyfarwyddwr Cymru BT

Beth yw eich blaenoriaethau allweddol fel Comisiynydd Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol?

Mae gennym flaenoriaethau clir yng nghynllun busnes 2011/2012 ond, pe bai'n rhaid i mi eu crynhoi, dyma'r tair blaenoriaeth: Cyfleu goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn glir i'n holl randdeiliaid. Sicrhau ein bod yn gwella ac yn dyfnhau dealltwriaeth pobl o'r agenda hawliau dynol. Meithrin cysylltiadau cryf gyda busnesau a sefydliadau busnes fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, IoD, Siambrau Masnach a'r Ffederasiwn Busnesau Bach.

Sut mae eich cefndir gyrfaol wedi dylanwadu ar eich ymwneud â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol?

Yn ystod fy ngyrfa, yn enwedig ers ymuno â BT, rwyf wedi gweithio gyda chorfforaethau mawr eraill yn yr Unol Daleithiau a'r DU (trwy'r Work Life Balance Centre ym Mhrifysgol Columbia), gan edrych ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n ddiddorol cymaint o gorfforaethau mawr sydd wedi gwneud y mater hwn yn rhan annatod o'u gwaith gan ei fod yn gwneud synnwyr busnes da. Mae gan BT enw da yn y

maes hwn gan ei fod ar flaen y gad o ran ei agwedd at weithio hyblyg a'i fecanweithiau cymorth a sicrwydd rhagorol i gynhalwyr. Does dim amheuaeth mai yma yn BT yr wyf wedi dysgu fwyaf am gydraddoldebau a hawliau dynol, a dyma a'm hysbrydolodd i ymgeisio am swydd Comisiynydd Cymru.

Pa wahaniaethau allweddol ydych chi wedi'u nodi rhwng Cymru a gweddill y DU ers dechrau'r swydd?

Ers dechrau'r swydd, rwyf wedi cyfarfod â rhanddeiliaid a phobl allweddol sy'n dylanwadu ar farn o bob cwr o Gymru, ac mae eu hymrwymiad i'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol ar bob lefel ac ym mhob sector wedi creu cryn argraff arnaf. Rydym wedi cyfarfod â'r rheini sy'n gwneud gwaith cyflawni a chefnogi ar lefel llawr gwlad ac wedi dysgu llawer ganddynt, ac rwy'n gobeithio bod ein harweiniad a'n cyngor wedi bod o gymorth iddynt. Mae'r ymrwymiad yng Nghymru'n ymddangos yn ddyfnach ac yn fwy amrywiol nag ydyw yn Lloegr neu ar lefel y DU. Mae yna dystiolaeth glir bod agwedd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru at hawliau dynol, er enghraifft y ffaith iddynt fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar

Hawliau'r Plentyn, yn esiampl dda i weinyddiaethau eraill y DU.

Y Ddeddf Cydraddoldeb newydd yw'r datblygiad mwyaf arwyddocaol ym maes cyfraith cydraddoldeb ers 40 mlynedd – pa wahaniaeth mae'n ei wneud yng Nghymru?

Llywodraeth Cymru yw'r unig lywodraeth yn y DU sydd wedi cyhoeddi'n ffurfiol Ddyletswyddau Cydraddoldeb i'r Sector Cyhoeddus fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2010. Mae'r Comisiwn yn awyddus i weld y dyletswyddau newydd hyn yn arwain at weithgareddau penodol ledled y sector cyhoeddus sy'n dangos bod newid ym maes cydraddoldebau a hawliau dynol yn digwydd mewn ffordd bendant ledled Cymru. Nid ysgrifennu polisi i'w roi ar sillf yw'r nod. Dylai fod yn ddarpariaeth sy'n helpu i gefnogi'r rheini sydd mewn perygl o ddi-ddeddf gwahaniaethu a rhagfarn.

Pa rwystrau sy'n atal menywod yng Nghymru rhag cyfrannu at yr economi?

Mae yna sawl rhwystr. Y pryder sylfaenol, fodd bynnag yw bod angen i ni ailwampio'r gweithle. Dylai gwaith fod yn rhywbeth mae pobl yn ei wneud, yn hytrach na rhywle mae pobl yn mynd. Pe bai pobl yn cael eu pwysu a'u mesur ar sail canlyniadau, yn hytrach nag ar sail eu

Bywgraffiad

Ann Beynon

Ymunodd Ann â BT ym mis Mehefin 1998 fel Rheolwr Cenedlaethol gyda chyfrifoldeb penodol dros ddatblygu a gweithredu strategaeth y cwmni yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2004, fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Cymru.

Gan mai hi yw un o'r uwch weithredwyr benywaidd prin sydd gennym yng Nghymru, mae Ann yn adnabyddus yn y gymuned fusnes. Yn Rhestr

Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2008, cafodd OBE am ei chyfraniad at fusnes ac aeth ymlaen i gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Rhagfyr 2009.

Mae Ann yn briod, gyda dau o blant, ac yn byw yng Nghaerdydd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Comisiwn, ewch i www.equalityhumanrights.com

presenoldeb yn ystod oriau penodol, neu pe bai ganddynt rywffaint o hyblygrwydd fel y gellir sicrhau cydbwysedd rhwng y cyfrifoldebau gofalu sydd gan lawer o fenywod a'u hymrwymadau gwaith, byddai pawb yn elwa. Nid yw defnyddio llai o ddoniau menywod na doniau dynion yn gwneud synnwyr. Os edrychwch chi ar y gronfa fyd-eang o ddoniau yn y sector corfforaethol, dim ond 18% sy'n ddynion gwyn!! Nid yw canran y dynion a'r menywod ar lefel Bwrdd yn cyfateb i hyn. Nid yw hynny'n arwain at wneud penderfyniadau da.

Yn eich barn chi, ydy hi'n bwysig i fwy o fenywod gael swyddi uwch?

Ydy, yn sicr. Mae angen o leiaf 30% o'r naill ryw neu'r llall ar bob lefel i sicrhau cydbwysedd synhwyrol. Mae gan ddynion a menywod wahanol gryfderau, gwendidau, agweddau a ffyrdd o fynd ati. Mae cael y ddau ryw i ategu ei gilydd yn ychwanegu gwerth enfawr. Rwyf am i bob menyw gael cyfle i ddisgleirio a bod yn hi ei hun yn y gweithle. Mae'n wastraff llwyr i beidio â chreu rhaglenni arloesol i sicrhau y gall menywod gyrraedd y brig. Gall cefnogaeth dynion fod yn hynod werthfawr ac mae angen iddynt ddeall bod ganddynt gyfrifoldeb mawr yn y maes hwn.

Sut all cyflogwyr fynd ati i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru?

Trwy ddefnyddio rhywfaint o'r adnoddau gwych mae'r Comisiwn wedi'u creu e.e. y straeon digidol byrion yn ymwneud â cham-drin domestig ac iechyd meddwl, y DVD ar hawliau dynol 'Stryd Urddas' a'r cyhoeddiadau 'Pa mor deg yw Cymru' a 'Pwy sy'n rhedeg Cymru'. Mae angen i gyflogwyr arwain yr agenda hon o'r brig. Mae'n gofyn i'r sawl sydd ar y brig bennu'r naws a chreu diwylliant cynhwysol lle mae amrywiaeth yn cael ei barchu a chydaddoldeb yn cael ei dathlu er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Beth yw prif fanteision busnes gweithlu amrywiol?

Mae pob diwylliant yn taflu goleuni gwahanol ar ddynoliaeth a gwahanol ffyrdd o gyflawni amcanion a dyheadau. Gall deall yr elfen ddiwylliannol hon fod yn bwerus iawn. Gorau po fwyaf o lwybrau i lwyddiant sy'n bodoli. Mae angen i fusnesau fod yn debyg i'w cwsmeriaid hefyd. Gyda thros 70% o benderfyniadau prynu'n cael eu gwneud gan fenywod (o drefnu gwyliau i benderfynu pa dŷ i'w brynu), byddai'n annoeth i fusnesau anwybyddu hyn.

Prosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth

Gan mai "Gwneud Gwahaniaeth" yw nod y prosiect hwn, mae'n werth bwrw golwg ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan WMAD – Merched yn Gwneud Gwahaniaeth.

Nod y prosiect yw ceisio sicrhau bod gan fwy o fenywod y sgiliau, y gallu, yr hyder a'r feddylfryd i ddod yn arweinwyr yn eu cymunedau, ac yn bobl sy'n gwneud penderfyniadau ym mywyd cyhoeddus a gwleidyddol Cymru. Mae'n canolbwyntio'n arbennig ar y menywod hynny sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol oherwydd rhwystrau lluosog o ganlyniad i'w hil, crefydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a/neu gyrhaeddiad addysgol, statws cymdeithasol a lleoliad daearyddol.

I ddysgu mwy am waith WMAD, ewch i'w gwefan yn www.womenmakingadifference.org.uk



Gwneud gwahaniaeth gyda'ch busnes eich hun



Rachel Thomas a Liz Davies

Mae Rachel Thomas o gwmni Coast and Country Holidays yn rhannu ei phrofiad o redeg busnes llwyddiannus yng Nghymru wledig.

Sefydlodd Rachel Thomas a'i phartner busnes Liz Davies Coast and Country Holidays yn y Gorllewin, ychydig dros 20 mlynedd yn ôl.

Dechreuodd y pâr eu "busnes bwrdd cegin" trwy osod eu tai haf eu hunain a thai haf ffrindiau a theulu. Yna, daeth cymydog atynt gan ofyn iddynt osod tŷ haf arall. Dyma pryd y penderfynodd Rachel a Liz gymryd y cam nesaf ac ehangu eu busnes. Yn sgil y penderfyniad hwn, maent bellach wedi symud o'r bwrdd cegin i adeilad fferm wedi'i ailwampio, gan gyfnewid y cabinet ffeilio am gyfrifiaduron, a chyflogi gweithlu o 11 o staff llawn-amser.

Mae Rachel yma'n egluro'r hanfodion sydd wedi gwneud gwahaniaeth i'w busnes.

ymchwil i'r farchnad

Mae darganfod beth yw'r gystadleuaeth yn hanfodol

Roeddem yn gweithio yng Ngogledd Sir Benfro ac yn gwybod bod llawer o fythynnod gwyliau yn yr ardal ond roedd yn anodd dod o hyd iddynt ac archebu gwyliau ynddynt. Roedd lleoliadau poblogaidd fel Tyddewi a Dinbych-y-pysgod wedi hen ennill eu plwyf, ond roedd gogledd y sir gyda'i thraethau gwag a'i harfordir garw wedi mynd yn angof bron. Dyma fyddai ein marchnad arbenigol.

cynllunio ariannol

Roedd y wybodaeth sylfaenol gennym a bu hynny o gymorth nes ymlaen

Rhwng y ddwy ohonom, roedd gennym ddigon o brofiad busnes i beidio â chael ein llethu gan faterion ariannol. Roedd y ddwy ohonom yn teimlo'n gyfforddus yn sefydlu cyfrifon banc, yn ymdrin â TAW a ffurflenni treth, ond roedd yna bethau eraill roedd yn rhaid i ni eu dysgu wrth wneud y gwaith.

cyflogi'r staff cywir

Gall cyflogi'r person cywir yn gynnar wneud gwahaniaeth sylweddol i dwf y busnes a'i ddatblygiad yn y dyfodol

Roeddem yn rhedeg ein busnes am flwyddyn heb staff. Roedd y diwrnod gwaith yn hir iawn, roedd y swyddfa ar agor bob dydd rhwng 9am a 7pm gan gynnwys y penwythnosau. Ar ôl blwyddyn, cyflogodd y ddwy ohonom ein gweithiwr cyntaf. Dewiswyd y person gorau ar gyfer y swydd ac o ganlyniad roedd modd i ni adeiladu tîm bach o staff lleol a oedd wrth eu boddau'n cael gweithio'n agos i gartref.

“ Mae siwrne Rachel a Liz yn ysbrydoliaeth ac yn enghraifft wych o fenywod mentrus yng Nghymru yn dangos mentergarwch ac yn defnyddio eu sgiliau ac yn gwireddu eu huchelgais. Rwy'n canmol eu camp ac yn dymuno pob llwyddiant iddyn nhw yn y dyfodol - mae mwyr eto i ddod, rwy'n siŵr!”

Katy Chamberlain, Prif Weithredwr Chwarae Teg



buddsoddi yn eich tîm

Mae'n werth buddsoddi mewn hyfforddiant staff er mwyn lleihau trosiant staff

Mae'n rhaid i chi hyfforddi eich staff os ydych yn disgwyl iddynt fod yn effeithlon a chyfrifol yn eu gwaith. Weithiau mae'n hawdd i aelodau staff laesu eu dwylo pan mae'r busnes yn gweithredu'n ddiraffferth ond nid yw pawb yn ymdopi'n dda yn ystod cyfnodau o straen. Mae hyfforddiant da yn sicrhau bod gan bob aelod staff yn gallu ymdopi ag amrywiaeth o sefyllfaoedd anodd ac yn llai tebygol o adael.

mynd ar-lein

Mae'r rhyngwyd wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithredu

Yn 2000 lanswyd ein gwefan gyntaf (www.welsh-cottages.co.uk) ac ar y pryd ychydig iawn roeddem yn ei wybod am bŵer y we. Mewn chwe mis, roeddem wedi gwerthu gwerth £350,000 o wyliau ar-lein ac yn cymryd archebion o fore gwyn tan nos. Sylweddolodd y ddwy ohonom yn gyflym iawn bod angen i ni gymryd y dull hwn o werthu a chyfathrebu o ddifrif ac erbyn hyn rydym yn gwneud dros 80% o'n busnes ar-lein, ac mae'r ffigur hwn yn cynyddu bob blwyddyn.

Profiad Rachel o redeg busnes yng Nghymru wledig:

manteision

- Gall sefydlu lleoliad busnes fod yn rhatach gan nad yw'n dibynnu ar gael presenoldeb ar y stryd fawr
- Dim problemau parcio
- Dim llawer o draffig wrth deithio i'r gwaith a golygfeydd godidog
- Gall ddenu gweithlu medrus o ansawdd uchel sy'n chwilio am well ffordd o fyw
- Ansawdd bywyd da
- Gellir cwblhau llawer o'r busnes ar-lein e.e. bancio

heriau

- Seilwaith TG a thelathrebu'n fwy cyfyngedig
- Gall derbyn nwyddau fod yn arafach
- Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus gyfleus
- Hygyrchedd

Meddai Rachel:

“ Gall sefydlu busnes fod yn anodd a blinedig iawn a gall gymryd llawer iawn o'ch amser. Roedd adegau pan fyddai wedi bod yn haws rhoi'r ffidil yn y to, ond ar ôl dal ati gallaf edrych yn ôl erbyn hyn ar bopeth rydym wedi'i gyflawni, nid yn unig yn y busnes, ond yn fy mywyd i ac ym mywydau pobl eraill hefyd.”

Holi ac ateb

gyda Derek Walker,
Prif Weithredwr Canolfan
Cydweithredol Cymru



Beth yw ymrwymiad Canolfan
Cydweithredol Cymru i
amrywiaeth? Disgrifiwch eich rôl fel
'Hyrwyddwyr Amrywiaeth'.

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'n gwerthoedd. Maent hefyd yn hanfodol i lwyddiant ein busnes. Mae ein harianwyr yn rhoi sylw priodol i'n harferion cydraddoldeb ac rydym yn cynnal gwasanaethau o safon uchel trwy sicrhau'r safonau cydraddoldeb gorau wrth gynnig gwasanaeth i'n cleientiaid ac yn y ffordd rydym yn trin ein staff. Ddwy flynedd yn ôl, sefydlodd Canolfan Cydweithredol Cymru grŵp staff o Hyrwyddwyr Amrywiaeth i arwain a sbarduno ein gwaith yn y maes hwn.

Hoffem glywed mwy am eich cyfraniad at raglen Cymunedau 2.0. Sut mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn gweithio tuag at gynhwysiant digidol yng Nghymru a pham mae hyn mor bwysig i fentrau cymdeithasol yng Nghymru?

Cymunedau 2.0 yw rhaglen cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru a ddarperir gan gonsortium o sefydliadau, gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru yn bartner arweiniol. Mae ein tîm yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol a gwirfoddol a mentrau cymdeithasol i helpu pobl a sefydliadau i fynd ar-lein. Mae'r mater hwn yn bwysig i fentrau cymdeithasol gan nad yw llawer ohonynt yn manteisio ar dechnoleg ddigidol i ddatblygu eu busnesau neu eu gwneud yn fwy cynaliadwy.

Beth yw blaenoriaethau allweddol Canolfan Cydweithredol Cymru?

Bywgraffiad

Derek Walker

Dechreuodd Derek ar ei swydd fel prif weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru ym mis Ionawr. Bu'n bennaeth materion allanol yn y Gronfa Loteri Fawr a, chyn hynny, yn bennaeth polisi ac ymgyrchoedd yn TUC Cymru.

Mae ei gefndir ym maes polisi a chyfathrebu ac mae ganddo brofiad eang o ddatblygu perthynas gref

Mae gennym dri maes gwaith allweddol: cefnogi cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol, lleihau nifer y bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a chynghori ar bolisi cynhwysiant ariannol. Ein blaenoriaeth gyntaf yw parhau i gyflawni'r gwaith hwn i'r safon uchaf. Rydym am gynnal ein henw da trwy ganolbwyntio ar barhau i wella'r ffordd rydym yn gweithredu.

A oes yna wahaniaethau rhwng dynion a menywod sy'n dechrau mentrau cymdeithasol yng Nghymru?

Does dim amheuaeth bod menywod yn wynebu mwy o rwystrau na dynion ym byd busnes. Mae'r sefyllfa yr un fath i fentrau cymdeithasol ag ydyw i gwmnïau mwy traddodiadol. Gall menywod wynebu gwahaniaethu wrth wneud cais am gyllid neu ofyn am hyfforddiant, er enghraifft. Wedi dweud hynny, mae'r sbardun allweddol i bobl sy'n datblygu mentrau cymdeithasol yr un fath i fenywod a dynion; pobl fusnes yw entrepreneuriaid cymdeithasol sydd am sicrhau newid cadarnhaol yn eu cymdeithas. Eleni, menywod oedd y mwyafrif a ddaeth i'r brig yn ein gwobrau mentrau cymdeithasol. Enillwyd Gwobr Cychwyn Busnes Gwobrau Mentrau Cymdeithasol y DU gan Kelly Davies o Raglen Addysgol Vi-Ability ym Mae Colwyn, ac enillwyd Gwobr Arweinydd y Fwyddyn gan Sharon Jones o Crest Co-operative yng Nghyffordd Llandudno.

Beth yw'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu pobl mewn ardaloedd gwledig? Beth mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny? Yn eich barn chi, pa rwystrau penodol sy'n wynebu menywod?

gyda rhanddeiliaid allweddol mewn llywodraeth ac ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Bu Derek hefyd yn rhan o'r gwaith o sefydlu swyddfa gyntaf Stonewall Cymru. Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol wedi bod yn themâu canolog yn ei yrfa hyd yma.

Mae'r economi wledig wedi wynebu sawl her dros y blynyddoedd wrth i ddiwydiannau ffemio traddodiadol ddod o dan bwysau. Mae diffyg mynediad i drafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus yn fwy o broblem hefyd. Er hynny, mae ethos y cydweithfeydd wedi bod yn gryf mewn ardaloedd gwledig wrth i bobl leol gyd-dynnu i ddarparu eu gwasanaethau eu hunain. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig mewn sawl ffordd. Mae ein prosiect consortia yn helpu busnesau unigol i ddod at ei gilydd fel consortia cydweithredol. Mae'r model hwn yn wych i ffemwyr neu fusnesau twristiaeth bach sydd am gyd-farchnata eu cynnyrch neu brynu deunyddiau ar y cyd.

Crynowch eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, yn enwedig i fenywod a'r economi yng Nghymru.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru am i Gymru arwain y blaen mewn perthynas â chydweithfeydd. Pam? Oherwydd bod cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol yn dda i'r economi ac i gymdeithas. Mae elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn y busnes, ei rannu ymhlith yr aelodau neu ei ddefnyddio i ariannu gwaith mewn cymunedau lleol. Rydym am i fenywod yng Nghymru gael yr un chwarae teg i wneud cyfraniad cyfartal at greu economi gymysg a chryf sy'n cynnwys cyfran uwch o gydweithfeydd a busnesau cymdeithasol. Mae gweithio gyda sefydliadau fel Chwarae Teg yn un ffordd o wneud hyn.

Chwarae Teg yn Gwneud Gwahaniaeth ers 1992

Mae'r canllaw cryno sy'n dilyn yn egluro pwy yw Chwarae Teg, beth rydym yn ei wneud a sut, yn ogystal â'r gwahaniaeth rydym wedi ei wneud ac wrthi'n ei wneud i fenywod yng Nghymru.

Canllaw cryno Chwarae Teg:

Pwy yw Chwarae Teg?

Jane Hutt AC, Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru ac Arweinydd y Tŷ, fu'n arwain y gwaith o sefydlu Chwarae Teg ym 1992. Fe'i sefydlwyd i gefnogi datblygiad economaidd Menywod yng Nghymru. Rydym yn cyflogi 50 o bobl ledled Cymru mewn swyddi sy'n amrywio o bolisi, ymchwil a hyfforddiant i gymorth ymarferol i fenywod a busnesau yn ein prosiect Cenedl Hyblyg.

Sut mae Chwarae Teg yn mynd ati?

Mae Chwarae Teg yn gweithio ar lefel strategol a gweithredol, gan ddylanwadu ar bolisiau a gweithio'n uniongyrchol gyda menywod a chyflogwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gennym wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddatblygiadau economaidd a datblygiadau'r gweithlu sy'n effeithio ar fenywod a busnesau. Mae'n ein galluogi hefyd i'w herio'n effeithiol trwy ein gwaith prosiect.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal prosiect gwerth £12.5 miliwn o'r enw Cenedl Hyblyg, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect yn dylanwadu ar ragolygon gyrfaol ac arferion gwaith 2,790 o fenywod a 610 o fusnesau.

Pam cefnogi datblygiad economaidd menywod?

Menywod yw dros hanner y boblogaeth a 43% o'r gweithlu, ac eto mae'n ffyrdd traddodiadol ni o weithio'n golygu nad ydynt yn cael eu cynrychioli fel ag y dylent mewn swyddi uwch ac mewn sawl sector o fyd diwydiant - felly, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n 10.2%. Nid mater o gydraddoldeb yn unig yw hyn, nid yw chwaith yn gwneud dim synnwyr i'n heconomi.

Mae Chwarae Teg yn gweithio tuag at sicrhau chwarae teg i fenywod yn y gweithle. Er enghraifft, o gofio bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 10.2% mae digon o waith i'w wneud eto.

Er mwyn helpu menywod i gamu ymlaen yn y gweithle, rydym wrthi'n datblygu a chanolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- Cymorth i fenywod ymuno â'r byd gwaith
- Arferion gwaith hyblyg a chynaliadwy
- Annog menywod i fentro
- Cadw menywod yn y gwaith a sicrhau eu bod yn gallu symud i fyny'r ysgol

Rydym am sicrhau nad yw eich rhyw yn effeithio yn negyddol ar eich gallu i ddatblygu yn y gwaith, eich gallu i ddewis eich proffesiwn a'ch gallu i lwyddo a dyna pam rydym yn cefnogi datblygiad economaidd menywod.

Am ragor o wybodaeth am y gwaith rydym yn ei wneud ewch i www.chwaraeteg.com

Pa wahaniaeth y mae Chwarae Teg yn ei wneud?

Mae'r prosiectau rydym wedi eu datblygu a'u cynnal ledled Cymru wedi darparu amrywiaeth o gymorth effeithiol i Fenywod a busnesau. Dyma rai ffigurau er mwyn dangos i chi'r gwahaniaeth y mae Chwarae Teg wedi'i wneud:

- Sefydlwyd 617 o fusnesau newydd gyda chymorth ein prosiect Menter Merched Cymru. Llwyddodd y busnesau hyn i greu cyfanswm o 912 o swyddi newydd.
- Rhwng 2004 a 2007, llwyddodd ein prosiect Ready SET Go i helpu dros 300 o fenywod i roi cynnig ar sgiliau mewn sectorau annhraddodiadol fel adeiladu.
- Hyd yn hyn, mae 1,334 o fenywod wedi cofrestru ar ein prosiect Cenedl Hyblyg ac mae 578 eisoes wedi ennill cymwysterau wedi'u hachredu gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Mae 188 o fusnesau yn cymryd rhan yn rhaglen Esblygiad Cenedl Hyblyg er mwyn helpu i sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y gweithle.

Gwneud Gwahaniaeth trwy ymaelodi â Chwarae Teg

Nod Chwarae Teg yw sicrhau y gall menywod yng Nghymru fyw a gweithio mewn cymdeithas deg. Trwy ymaelodi, byddwch yn dangos eich cefnogaeth i'r gwaith rydym yn ei wneud, a byddwch yn ein helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad economaidd menywod yng Nghymru.

Mae modd i unigolion ymaelodi'n bersonol am £25 y flwyddyn yn unig. Mae aelodaeth gorfforaethol ar gael ar gyfer busnesau a sefydliadau, a dyma'r ffordd ddelfrydol i chi ddangos eich bod yn mynd ati i wneud gwahaniaeth yn eich gweithle am gyn lleied â £250 + TAW y flwyddyn.

Sut mae ymaelodi?

Am fwy o wybodaeth am ymaelodi ewch i www.chwaraeteg.com

Os hoffech gael ffurflen gais ymaelodi, ffoniwch **029 2047 8900** neu e-bostiwch post@chwaraeteg.com



oeddech chi'n gwybod?

- Menywod yw bron i hanner gweithlu'r DU a thros 2/3 o'r holl raddedigion ond cyflogir llawer ohonynt yn rhan-amser ac mewn swyddi nad ydynt yn cyflawni eu potential.
- Mae 75% o holl weithwyr rhan-amser Cymru yn fenywod.
- Amcangyfrifir bod y golled i economi'r DU yn sgil menywod sydd wedi cymhwyso fel gwyddonwyr, technegwyr neu beirianwyr ac sy'n gweithio'n is na lefel eu cymwysterau, sy'n ddi-waith neu'n anweithgar yn £2 biliwn.
- Bob blwyddyn, mae tua 30,000 o fenywod yn colli eu gwaith o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth.
- Mae 52% o fenywod cefn gwlad Cymru yn economaidd weithgar. O'r menywod hyn, mae 29% yn gweithio'n llawn amser, 17% yn gweithio rhan-amser a 6% yn hunangyflogedig.

Cadw mewn cysylltiad â Chwarae Teg

Mae cylchlythyr Chwarae Teg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau diweddaraf y gweithle o ran arferion da, polisi a deddfwriaeth. Mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf i chi hefyd am ein gweithgareddau cyfredol, gan gynnwys ein prosiect Cenedl Hyblyg a'n prosiectau eraill, ynghyd â

chyfwelladau unigryw â phobl sy'n gwneud gwahaniaeth i fenywod Cymru.

Cyhoeddir y cylchlythyr bob chwarter. Er mwyn sicrhau eich copi, e-bostiwch post@chwaraeteg.com neu ffoniwch **029 2047 8900** er mwyn cael eich tanysgrifiad am ddim.

